Beibl i Blant

yn cyflwyno



Solomon y brenin doeth

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Lazarus
Alastair Paterson
addaswyd gan: Ruth Klassen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd y Brenin Dafydd yn was da i Dduw. Tra roedd yn frenin, tyfodd teyrnas Israel deg gwaith yn fwy nag yn amser y Brenin Saul. Ond roedd Dafydd yn hen erbyn hyn. Roedd e wedi blino ac yn sâl! Doedd e ddim yn mynd i fyw yn hir.

Dywedodd Adoneia, un o feibion Dafydd, wrth bobl Israel mai fe fyddai'r brenin newydd. Ystyr enw Adoneia ydy "Fy Arglwydd sy Dduw," ond doedd Adoneia ddim yn ddyn da. Aeth ati i drio dwyn y goron achos bod e'n gwybod fod Dafydd yn rhy wan i'w stopio. Ond roedd cynllun arall gan Dduw!

Roedd gwraig Dafydd, Bathseba yn gwybod mai ei mab hi, Solomon, ddylai fod yn frenin. Aeth at Dafydd a dweud wrtho am gynlluniau Adoneia. Er bod Dafydd yn wael, galwodd ei arweinwyr ato, a dweud wrth bawb, "Solomon fydd brenin nesaf Israel".



Dyna ddiwedd ar gynlluniau Adoneia achos roedd pobl Israel yn credu Dafydd. Dywedodd Dafydd wrthyn nhw bod Duw wedi dewis Solomon yn frenin. Yn fuan wedyn, buodd Dafydd farw.





Cyn marw, dywedodd Dafydd wrth Solomon fod angen iddo wrando ar Dduw a bod yn frenin da. "Rhaid i ti fyw fel mae Duw eisiau. Dyna'r ffordd i lwyddo." Dyna gyngor da! Yna daeth Solomon yn frenin yn lle ei dad, Dafydd. Byddai teyrnas Dafydd yn para am byth.

Un noson, cafodd Solomon freuddwyd. Yn y freuddwyd daeth Duw ato a gofyn, "Beth wyt ti eisiau i mi ei roi i ti?"

Gofynnodd Solomon am gael bod yn ddoeth er mwyn iddo fod yn frenin da. Cafodd Duw ei blesio wrth glywed hyn. Byddai Solomon yn cael beth roedd ei eisiau – ond byddai hefyd yn cael cyfoeth ac anrhydedd.

Yn fuan wedyn fe wnaeth y bobl weld doethineb Solomon ar waith. Un diwrnod, daeth dwy fam ato. Roedd babi gan un. "Un noson fe wnaeth mab y wraig yma farw, ac fe wnaeth hi gymryd fy mab i a rhoi'r babi marw yn fy mreichiau i," meddai un ohonyn nhw. "Naddo," meddai'r wraig arall, "fy mab i ydy'r babi byw, Dy fab DI sydd wedi marw." Sut oedd y brenin yn mynd i wybod pwy oedd yn dweud y gwir?

Yna dywedodd y brenin, “Rhowch gleddyf i mi.” Dyma nhw’n dod ag un iddo. Beth oedd y brenin yn mynd i’w wneud gyda’r cleddyf?



Dyma'r brenin yn dweud, "Torrwch y plentyn byw yn ei hanner, a rhowch hanner bob un iddyn nhw." Yna dywedodd mam y babi byw, "Syr, rho'r plentyn byw iddi hi. Da ti, paid â'i ladd e."

Ond dywedodd y llall, "Os nad ydw i'n ei gael e, gei di mohono chwaith – rhannwch e!"

Felly dyma'r brenin yn dweud, "Rhowch y plentyn byw i'r wraig gyntaf. Hi ydy'r fam." Pan glywodd pobl Israel fel roedd y brenin wedi setlo'r broblem, roedden nhw'n rhyfeddu. Roedden nhw'n gweld fod Duw wedi rhoi doethineb iddo.

Doedd dim teml gan bobl Israel ar gyfer addoli Duw. Roedd Dafydd wedi meddwl adeiladu un ond roedd Duw wedi dweud, "Dy fab fydd yn adeiladu tŷ i mi."



Felly dechreuodd Solomon adeiladu teml wych yn Jerwsalem.

Ar ôl saith mlynedd o waith adeiladu, daeth y dydd i bawb ddod at ei gilydd i glywed Solomon yn cysegru'r Deml.



Ar ôl dweud gweddi arbennig, fe wnaeth y brenin a'r bobl aberthu miloedd o anifeiliaid,



ac yna fe wnaethon nhw ddathlu am bythefnos!

Daeth Duw at Solomon eto a dywedodd y byddai gyda fe ac Israel, dim ond iddyn nhw fod yn ufudd iddo fe.

Ond, yn drist iawn, wnaeth Solomon a'r Israeliaid ddim ufuddhau i Dduw bob amser. Priododd y brenin lawer o wragedd oedd ddim yn credu yn Nuw. Fe wnaethon nhw berswadio'r brenin i addoli delwau. Wnaeth e ddim aros yn ffyddlon i'r ARGLWYDD fel Dafydd ei dad.



Tra roedd Solomon yn gwastraffu ei gyfle i ufuddhau i Dduw, cafodd un o'i swyddogion, dyn o'r enw Jeroboam, brofiad rhyfedd. Dywedodd proffwyd wrtho fod Duw am rannu teyrnas Solomon, a byddai Jeroboam yn rheoli deg o'r un deg dau lwyth. Dyma Jereboam yn dianc i'r Aifft. Byddai Solomon yn ei ladd petai'n aros.



O'r diwedd buodd Solomon farw. Fe wnaeth ei fab, Rehoboam, godi trethi mwy na Solomon. Cododd deg o'r llwythau yn ei erbyn, a dewis Jeroboam fel arweinydd.



Roedd teyrnas fawr Solomon wedi ei rhannu yn ddwy, yn union fel oedd y proffwyd wedi dweud.
Dydy Duw ddim yn gallu gadael i bobl lwyddo pan maen nhw gwrthod gwrando arno fe!

Solomon y brenin doeth

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

1 Brenhinoedd 1-12

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16